"Y mae'r gwynt yn chwythu lle y myn, ac yr wyt yn clywed ei sŵn, ond ni wyddost o ble y mae'n dod nac i ble y mae'n mynd. Felly y mae gyda phob un sydd wedi ei eni o'r Ysbryd."
(Ioan 3:8)

Sgwrs bersonol oedd yma rhwng Iesu a Nicodemus, athro crefyddol yn Israel. Bu'r cyfarfod yn oriau'r gwyll, er mwyn i neb wybod ar y pryd bod Nicodemus yn holi Iesu o Nasareth, mae'n debyg. Yn yr adnod hon mae'r Arglwydd yn sôn am yr Ysbryd Glân fel y gwynt, sy'n help i ni ddeall gwaith yr Ysbryd Glân heddiw hefyd.

Yr anweledig wynt

Mae darlun Iesu'n hawdd i'w ddeall. Mae pob un ohonom yn gwybod os yw hi'n wyntog. Gallwn fod yn y gwely yn clywed sŵn y gwynt, ac yna fe godwn i'r ffenest i edrych allan, a gweld nid y gwynt ond ei effaith ymhob man; dail y coed yn disgyn fel parasiwtydd, neu'n cael eu troelli fel top mewn rhyw gornel o'r ardd. A'r coed eu hunain yn plygu fel pobl yn cwrdd â'r frenhines.

Er ei fod yn anweledig, gwyddom yn iawn pa mor nerthol yw'r gwynt ar ôl gweld lluniau corwyntoedd ysgubol gogledd America. Gwelsom y coed wedi eu dadwreiddio, a'r tai heb eu toeau. Erbyn hyn, yr ydym yn gyfarwydd â gweld melinau gwynt modern ar fryniau Cymru yn helpu i gynhyrchu trydan. Ac rwy'n cofio byw yn y dref fel plentyn a deffro yn y bore weithiau i sŵn cras y dril niwmatig yn tyllu'r tarmac er mwyn trwsio'r lôn.

Grym y deyrnas

Mae Iesu'n dweud wrthym mai dyma'r math o rym sydd ar waith pan ddaw person yn fyw i Dduw; grym niwmatig yr Ysbryd Glân. Ni allwn ddod i deyrnas Dduw, ni allwn ddod yn blant i Dduw heb gael ein geni o'r Ysbryd. Rhaid i rym nerthol yr Ysbryd ein hysgwyd a'n deffro.

Dyma esboniad yr apostol Paul am lwyddiant ei waith yng Nghorinth: **"a'm hymadrodd i a'm pregeth, nid geiriau deniadol doethineb oeddent, ond amlygiad sicr o'r Ysbryd a'i nerth"** (1 Cor. 2:4). Mae Paul yn dweud ei fod ef ei hun mewn ofn a gwendid mawr yng Nghorinth. Roedd cymaint o ofn arno nes bod yr Arglwydd wedi ymddangos iddo i'w nerthu a'i annog i ddal ati, gan y byddai rhai yn dod i gredu yn y ddinas. Felly, nid nerth Paul oedd yn gyfrifol am sefydlu eglwys Corinth, ond nerth yr Ysbryd Glân.

Bywyd newydd

Pan ddaw person yn Gristion, pan gaiff ei aileni, nid mater o droi dalen newydd yw hyn, nid mater o gyrraedd ei botensial, ond mater o ddod o farw'n fyw. Mater o gael ei eni i fywyd cwbl newydd: **"fe'n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ"** (Eff. 2:4-5).

Nod a phwrpas cyntaf yr Efengyl yw nid diwygio pobl, na dylanwadu ar gymdeithas er daioni. Nid chwaith llenwi capeli yw prif nod Efengyl Crist; ei phwrpas yw rhoi bywyd ysbrydol i bechaduriaid sydd yn feirw mewn pechod. Dim ond yr Ysbryd Glân all gyflawni hyn, ac mae'n gwneud hynny mewn ffordd sofran, nid mewn ffordd y gallwn ni ei lywio na'i reoli, oherwydd: **"Y mae'r gwynt yn chwythu le y myn."** Gall pobl sianelu'r gwynt i weithio'n nerthol, ac mae Duw yn ceisio pobl y gall eu defnyddio fel sianelau i'r Ysbryd Glân.

Argyhoeddi

Yng ngwaith y deyrnas, yng ngwaith yr Efengyl, felly, mae'r Ysbryd Glân yn hanfodol. Er i bregethwr neu dyst geisio perswadio pobl o'u hangen i edifarhau, a cheisio disgrifio gogoniant y Gwaredwr a gogonaint gras achubol Duw, fydd person ddim yn gweld ei angen am Dduw, dyfnder ei bechod a'i wrthryfel yn erbyn Duw, a fydd e ddim yn gweld darpariaeth Duw ar ei gyfer ar Galfaria, heb i'r Ysbryd Glân ei fywhau.

Addawodd yr Arglwydd yr Eiriolwr arall i'w ddisgyblion a dywedodd: **"fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod, a chyfiawnder, a barn; ynglŷn â phechod am nad ydynt yn credu ynof fi; ynglŷn â chyfiawnder oherwydd fy mod i'n mynd at y Tad, ac na chewch fy ngweld ddim mwy; ynglŷn â barn am fod tywysog y byd hwn wedi cael ei farnu"** (Ioan 16:8-11).

Boed i'r Arglwydd anfon ei Ysbryd mewn nerth eto atom. Boed i ni fod yn sianelau y gall eu defnyddio er mwyn i ni weld llawer yn dod o dywyllwch i oleuni, o feddiant Satan at Dduw, ac o farw'n fyw.